

DAVID LLOYD GEORGE

Yn y pecyn adnoddau hwn ceir deunyddiau sy'n cynnwys gwybodaeth am gyfraniad David Lloyd George mewn gwahanol feysydd i ymgyrch ryfel Prydain. Mae rhai o'r ffynonellau hefyd yn sôn am ei sgiliau fel arweinydd ac fel siaradwr effeithiol. Er ei fod yn erbyn mynd i ryfel ar y dechrau yn 1914, erbyn 1918 roedd yn cael ei ddisgrifio ym Mhrydain fel 'y dyn wnaeth ennill y rhyfel'.

Mae'r dasg yn cyflwyno dau senario i'r disgyblion ac yn gofyn iddyn nhw ystyried beth fydden nhw wedi gwneud fel:

1. **Gweinidog Arfau yn 1915:** doedd Prydain ddim yn cynhyrchu digon o sielau ac arfau i gyflenwi'r milwyr ar Ffrynt y Gorllewin;
2. **Prif Weinidog yn 1917:** roedd llongau tanfor yr Almaen yn ymosod ar longau masnach oedd yn cludo bwyd er mwyn ceisio gorfodi Prydain i ildio drwy newynu ei phobl.

Bydd gofyn i'r disgyblion wedyn i ddefnyddio ffynonellau cynradd i ganfod gwybodaeth am y polisiau gyflwynwyd gan Lloyd George a'i lywodraeth wrth ymateb i'r ddwy broblem yma, a chymharu'r rhain gyda'u hatebion eu hunain.

David Lloyd George a'r Rhyfel Byd Cyntaf

Roedd David Lloyd George yn aelod o'r Llywodraeth Ryddfrydol ddaeth i rym wedi Etholiad Cyffredinol 1906. Yn 1908 penodwyd ef yn Ganghellor y Trysorlys gan Herbert Asquith y Prif Weinidog.

Rhwng 1915 ac 1916 roedd yn Weinidog Arfau gyda chyfrifoldeb dros sicrhau bod mwy o arfau'n cael eu cynhyrchu a bod y lluoedd arfog ar feysydd y gad yn derbyn digon o arfau ac adnoddau.

Yn dilyn marwolaeth Kitchener penodwyd Lloyd George yn Ysgrifennydd Gwladol Rhyfel ym mis Gorffennaf 1916, a daeth yn Brif Weinidog yn lle Asquith yn Rhagfyr 1916. Roedd yn dal yn y swydd honno yn 1918 pan ddaeth y rhyfel i ben, ac ef oedd prif gynrychiolydd Prydain yng Nghynhadledd Heddwch Paris wnaeth ddrafftio Cytundeb Versailles.

Nodiadau athro